



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

**POLISI RHIANT A RENNIR**

Arolwg	Dyddiad	Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid	Dyddiad yr Arolwg
1.	2015	Polisi wedi'i greu	2017
2.	2016	Newidiadau cosmetig	2018
3.	2018	Diweddariad am eglurder y broses	2020
4.	2021	Adolygiad - Gwelliannau i'r meini prawf cymhwysedd a chymalau cysylltiedig	2023
Swyddog Polisi	Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb	Cymeradwywyd gan a Dyddiad	Asesiad o ran Effaith ar Gydraddoldeb, a dyddiad
Jade Luke	Steffan Griffiths	HRTG 21/04/2021	Ebrill 2021



## Tabl Cynnwys

1	RHAGARWEINIAD .....	5
2	ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR .....	5
3	TÂL STATUDOL ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR .....	6
4	CYMHWYSTER I GAEL ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR.....	6
5	PROSES ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR .....	7
5.1	<b>CAM 1</b> - HYSBYSU DIWEDD ABSENOLDEB MAMOLAETH NEU FABWYSIADU .....	7
5.2	<b>CAM 2</b> - HAWL I ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR.....	7
5.3	CYNLLUNIAU ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR A HAWL AM DÂL.....	8
5.4	MATHAU O ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR.....	9
5.5	<b>CAM 3</b> - GWNEUD CAIS AM ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR .....	10
6	YMATEB I GAIS AM ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR .....	10
7	DECHRAU ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR .....	11
8	AMRYWIADAU I ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR .....	11
9	CADW MEWN CYSYLLTIAD YN YSTOD EICH CYFNOD ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR - Dyddiau cadw mewn cysylltiad yn ystod Absenoldeb Rhiant a Rennir.....	12
10	DYCHWELYD I'R GWAITH AR ÔL ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR.....	13
11	AELODAU STAFF NAD YDYNT YN DYCHWELYD I'R GWAITH.....	14
12	HAWLIAU AC YMRWYMIADAU .....	14
12.1	HAWLIAU PENSIWN.....	14
12.2	GWASANAETH DI-DOR.....	15
12.3	GWILIAU BLYNYDDOL .....	15

12.4	RHOI GWYBODAETH FFUG.....	15
13	STAFF AR GONTRACTAU CYFNOD PENODOL .....	15
14	AELODAU STAFF A GYLLIDIR GAN INCWM ALLANOL .....	16
15	ADOLYGU POLISI .....	16

## **1 RHAGARWEINIAD**

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo'n llawn i helpu rhieni sy'n gweithio gael cydbwysedd rhwng anghenion gwaith a bywyd teulu, ac yn gwerthfawrogi'r pwysigrwydd o roi mwy o ddewis i rieni o ran sut maent yn trefnu gofal rhieni yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd plentyn ar ôl cael ei eni neu ei fabwysiadu.

Nod Absenoldeb Rhiant a Rennir yw rhoi hyblygrwydd i'r holl rieni sy'n gymwys mewn perthynas â sut maent yn rhannu gofal plant yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd/lleoliad y plentyn.

## **2 ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR**

Mae Absenoldeb Rhiant a Rennir yn rhoi mwy o ddewisiadau i rieni cymwys (tu hwnt i absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu/tadolaeth traddodiadol) wrth iddynt ystyried sut i ofalu am eu plentyn newydd a chreu cwlwm gyda'r plentyn hwnnw. Mae'n caniatáu i rieni rannu'r gofal am eu plentyn yn gyfartal yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl cael iddo gael ei eni neu ei fabwysiadu. Gan ddefnyddio Absenoldeb Rhiant a Rennir, gall y ddau riant gymryd cyfnod o absenoldeb ar yr un pryd neu gallant gymryd cyfnodau o absenoldeb a chyfnodau o waith am yn ail.

Mae faint o Absenoldeb Rhiant a Rennir sydd ar gael yn dibynnu a yw'r fam/prif fabwysiadwr yn defnyddio eu hawliau mamolaeth/mabwysiadu i gyd. Caiff unrhyw hawl sy'n weddill i absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu ei newid i Absenoldeb Rhiant a Rennir a gellir ei rannu rhwng y ddau riant cymwys. Gall partner y fam/prif fabwysiadwr gymryd cyfnod o Absenoldeb Rhiant a Rennir tra bod y fam/prif fabwysiadwr yn dal ar absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu os ydynt yn dymuno gwneud hynny, cyn belled â bod y fam/mabwysiadwr wedi rhoi rhybudd priodol i orffen ei hawl am absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu.

Gellwch ofyn am eich cyfnod o Absenoldeb Rhiant a Rennir mewn blociau parhaus neu flociau toredig a gellwch gyflwyno hyd at 3 rhybudd (yn nodi pryd a sut yr hoffech gymryd eich absenoldeb).

Ni ddylid cymysgu rhwng Absenoldeb Rhiant a Rennir ac Absenoldeb Rhiant di-dâl.

Os ydych yn ystyried cymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir rydym yn eich annog i gysylltu â'ch rheolwr llinell i drefnu trafodaeth anffurfiol cyn gynted ag y bo modd i drafod eich hawl posibl, i siarad am eich cynlluniau a galluogi'r brifysgol i roi gymaint o gefnogaeth ag y bo modd.

### 3 TÂL STATUDOL ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR

Os ydych yn gymwys, efallai y bydd gennych hawl i gael hyd at 37 wythnos o Dâl Statudol Absenoldeb Rhiant a Rennir yn ystod yr absenoldeb, yn dibynnu ar faint o dâl mamolaeth/mabwysiadu neu lwfans mamolaeth mae'r fam/prif fabwysiadwr eisoes wedi ei dderbyn ar yr adeg y maent yn dewis dod â'r hawl absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu i ben (hynny yw, mae'r hyn sy'n weddill yn newid i fod yn hawl Tâl Statudol Absenoldeb Rhiant a Rennir).

Telir y Tâl Statudol yn ôl y gyfradd statudol a osodir gan y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn dreth berthnasol, neu 90% o'ch enillion wythnosol cyfartalog os yw hyn yn is na'r gyfradd a osodir gan y Llywodraeth.

### 4 CYMHWYSTER I GAEL ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR

Dim ond dau o bobl all ddefnyddio Absenoldeb Rhiant a Rennir:

- Y fam/prif fabwysiadwr **ac**
- Un o'r canlynol:
  - tad y plentyn (yn achos genedigaeth) neu
  - priod, partner sifil neu bartner y fam/prif fabwysiadwr

Rhaid i'r ddau riant rannu'r prif gyfrifoldeb dros ofalu am y plentyn adeg genedigaeth y plentyn/ ei fabwysiadu.

Yn ogystal, os ydych eisiau cymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir, mae'n rhaid i chi gyflawni pob un o'r meini prawf a ganlyn:

- rhaid i'r fam/prif fabwysiadwr fod â hawl i absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu statudol neu dâl mamolaeth/mabwysiadu statudol neu lwfans mamolaeth ac wedi gorffen derbyn hawliadau mamolaeth/mabwysiadu neu roi rhybudd i'w gorffen;
- rhaid i chi fod yn dal i weithio i'r brifysgol ar ddechrau pob cyfnod o Absenoldeb Rhiant a Rennir;
- rhaid i'ch partner (os ddim aelod o staff Brifysgol Bangor hefyd) gyflawni'r 'prawf cyflogaeth ac enillion' lle mae angen iddo/iddi yn ystod y 66 wythnos yn arwain at ddyddiad disgwylidig geni/mabwysiadu'r plentyn fod wedi gweithio o leiaf 26 wythnos ac ennill cyfartaledd o fan leiaf £30 (mae hyn yn gywir o 2017 ond gall newid yn flynyddol) yr wythnos yn ystod unrhyw 13 o'r wythnosau hynny;
- rhaid i chi roi gwybodaeth gywir i'r brifysgol am eich hawl.

## 5 PROSES ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR

Mae siartiau llif yn amlinellu'r broses i bob rhiant i'w cael [yma](#). Maent yn cynnwys pa ffurflenni y dylid eu llenwi ym mhob amgylchiad.

### 5.1 CAM 1 - HYSBYSU DIWEDD ABSENOLDEB MAMOLAETH NEU FABWYSIADU

Mae'r opsiwn ar gyfer Absenoldeb Rhiant a Rennir yn cael ei greu pan fo mam neu brif fabwysiadwr naill ai yn:

- Gorffen eu habsenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu ynghynt (hynny yw, ei ostwng i lai na 52 wythnos)

neu, mewn achosion lle nad oes ganddynt hawl i absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu;

- Gorffen cyfnod tâl eu habsenoldeb mamolaeth/mabwysiadu statudol ynghynt (hynny yw, ei ostwng i lai na 39 wythnos).

Gellir gwneud hyn drwy:

- Roi rhybudd ysgrifenedig i'w cyflogwr i orffen eu habsenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu ar ddyddiad penodol

Unwaith bo'r fam neu'r prif fabwysiadwr wedi gwneud hyn, gallant hwy a'u partner ddatgan yr hawl i gael Absenoldeb Rhiant a Rennir i'w cyflogwyr (gan gymryd bod y ddau yn gymwys).

Os yw'r fam neu'r prif fabwysiadwr yn gyflogedig gan y brifysgol, gallant roi rhybudd i orffen eu habsenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu drwy lenwi Ffurflen 1 (Rhoi terfyn ar Absenoldeb Mamolaeth/Mabwysiadu er mwyn cymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir).

### 5.2 CAM 2 - HAWL I ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR

Mae'n rhaid i chi roi datganiad cywir i'r brifysgol am eich hawl a'ch bwriad i gymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir (a Thâl Absenoldeb Rhiant a Rennir lle bo'n gymwys). Rhaid i hyn fod o leiaf wyth wythnos cyn y bwriedwch gymryd yr absenoldeb. Bydd angen i chi lenwi naill ai:

- Ffurflen 2: Hysbysiad o Fwriad i gymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir (Mam/Prif Fabwysiadwr); neu
- Ffurflen 4: Hysbysiad o Fwriad i gymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir (Partner y Fam/Prif Fabwysiadwr)

Lle bo'r ddau riant yn gyflogedig gan y brifysgol, mae'n rhaid i'r ddau gyflwyno datganiadau ar wahân. Dylech ddychwelyd y ffurflen hon at Adnoddau Dynol ac anfon copi i'ch rheolwr llinell.

Yn y datganiad mae'n rhaid i chi roi'r dyddiadau arfaethedig pryd yr ydych yn ystyried cymryd eich absenoldeb; ond nid yw hyn yn eich rhwymo'n awtomatig bryd hynny ac ni chaiff ei drin fel cais i archebu cyfnod o absenoldeb.

Ar ôl derbyn eich ffurflen, dylai eich rheolwr llinell gael trafodaeth gynnar gyda chi ynglŷn â'ch bwriad i gymryd absenoldeb a sut ydych yn dymuno defnyddio eich hawl i Absenoldeb Rhiant a Rennir.

Unwaith bo'r fam/prif fabwysiadwr wedi rhoi rhybudd i orffen cyfnod o absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu, a bod y ddau riant wedi rhoi gwybod i'w cyflogwr am eu hawl i gymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir, yna mae'r rhybudd i orffen absenoldeb mamolaeth yn rhwymol ac ni ellir ei dynnu nôl dim ond mewn amgylchiadau eithriadol.

Os mai chi yw'r fam/prif fabwysiadwr ac yn aelod o staff y brifysgol, ac nad ydych eisiau cymryd cyfnod/cyfnodau o Seibiant Rhiant a Rennir, ond bod eich partner yn dymuno gwneud hynny, yna bydd angen i chi lenwi Ffurflen 3 (Hysbysiad yn cadarnhau bod Partner yn cymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir ond nad ydych chi (Mam /Prif Fabwysiadwr) yn gwneud hynny.

### 5.3 CYNLLUNIAU ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR A HAWL AM DÂL

Dangosir isod yr hawliau gwahanol i absenoldeb rhiant a rennir a thâl:

Hawl/Tâl
• 8 wythnos o dâl llawn (ar eich cyfradd wythnosol arferol). Mae hyn yn cynnwys cyfnod absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu gorfodol o 2 wythnos;
• + 18 wythnos ar hanner cyflog (hanner eich cyfradd wythnosol arferol) + Tâl Statudol Absenoldeb Rhiant a Rennir, neu 90% o'ch cyfradd wythnosol arferol os yw'n llai.
• + 13 wythnos ar y gyfradd statudol, neu 90% os yw'n llai.



- |   |
|---|
| <ul style="list-style-type: none"><li>• + 13 wythnos o absenoldeb di-dâl.</li></ul> |
|---|

Sylwer - cyfrifir enillion wythnosol cyfartalog yn unol â'r rheoliadau tâl absenoldeb rhiant a rennir sydd mewn grym ar y pryd.

Caiff unrhyw wythnosau a dalwyd fel absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu eu tynnu o'r wythnosau sy'n weddill yn yr hawl am Absenoldeb Rhiant a Rennir.

Er enghraifft, os yw mam/prif fabwysiadwr yn gorffen absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu ar ôl 8 wythnos, mae yna 44 wythnos o Absenoldeb Rhiant a Rennir ar gael ac/neu 31 wythnos o Absenoldeb Rhiant a Rennir Statudol ar gael. Os yw'r rhiant arall yn aelod o staff Prifysgol Bangor ac yn cymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir ar ôl yr 8 wythnos ddechreuol hyn, bydd ef/hi yn derbyn hanner cyflog (hanner eich cyfradd wythnosol arferol) + Tâl Statudol Absenoldeb Rhiant a Rennir, neu 90% o'ch cyfradd wythnosol arferol os yw'n llai.

#### 5.4 MATHAU O ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR

a) Absenoldeb di-dor - Un cyfnod parhaus o absenoldeb di-dor.

Rhaid i'ch rheolwr llinell dderbyn hysbysiad o absenoldeb di-dor.

b) Absenoldeb toredig - nifer o gyfnodau o absenoldeb dros gyfnod o amser lle bo'r gweithiwr yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith rhwng pob cyfnod o absenoldeb.

Gellwch wneud cais i gymryd cyfnodau toredig o absenoldeb. Caiff ceisiadau am gyfnodau toredig o absenoldeb eu hystyried fesul achos gan eich rheolwr llinell gan roi ystyriaeth i anghenion busnes yr is-adran/adran.

Yn achos cyfnodau toredig o absenoldeb, gall y brifysgol:

- Gydsynio i'r cyfnodau y gwneir cais amdanynt;
- Cynnig dyddiadau eraill i'r rhai a ofynnwyd am absenoldeb;
- Gwrthod ceisiadau.

Os caiff y cyfnodau o absenoldeb toredig eu gwrthod gellwch naill ai:

- Dynnu'r rhybudd yn ôl;
- Dewis cymryd y cyfnod o absenoldeb y gofynnwyd amdano yn y rhybudd fel un cyfnod di-dor o Absenoldeb Rhiant a Rennir, gan ddechrau dim cynharach nag 8 wythnos o ddyddiad y rhybudd.

Ni fydd cytuno i un cais yn gosod cysail nac yn creu'r hawl i weithiwr arall gael caniatâd am batrwm tebyg o Absenoldeb Rhiant a Rennir.

### 5.5 **CAM 3** - GWNEUD CAIS AM ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR

Cyn belled â'ch bod eisoes wedi datgan eich hawl, gellwch wneud cais ffurfiol am gyfnod o Absenoldeb Rhiant a Rennir trwy gyflwyno Ffurflen 5 - Cais i Archebu Absenoldeb Rhiant a Rennir - i Adnoddau Dynol gyda chopi i'ch rheolwr llinell o leiaf wyth wythnos cyn y dyddiad yr ydych yn dymuno i'ch absenoldeb ddechrau.

Mae gennych yr hawl i gyflwyno hyd at dri chais, yn nodi'r cyfnodau absenoldeb rydych eisiau eu cymryd. Gall pob cais fod am:

- a) Un cyfnod parhaus o absenoldeb di-dor; neu
- b) Absenoldeb toredig

Dim ond mewn wythnosau llawn y gellir cymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir ond gall ddechrau ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos. Er enghraifft, os bydd wythnos o Absenoldeb Rhiant a Rennir yn dechrau ar ddydd Mawrth bydd yn gorffen ar ddydd Llun.

## 6 **YMATEB I GAIS AM ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR**

Cyn gwneud penderfyniad, dylai eich rheolwr llinell ystyried a oes angen cyfarfod anffurfiol i drafod cais yn ôl y canllawiau canlynol:

- Lle bo'r rhybudd am un cyfnod o absenoldeb di-dor efallai na fydd angen cyfarfod yn enwedig os yw'r cais eisoes wedi'i drafod.
- Lle bo'r cais am absenoldeb toredig, y gellir ei gymeradwyo heb drafodaeth bellach yna, efallai yn yr un modd, ni fydd angen cyfarfod.
- Lle bo'r cais am absenoldeb toredig ac mae pryderon ynglŷn â gweithredu'r cais, bydd rhaid cael cyfarfod.

Diben unrhyw gyfarfod anffurfiol yw trafod yn fanwl yr absenoldeb a gynigir a beth fydd yn digwydd pan fyddwch i ffwrdd o'r gwaith. Lle bo'n gais am absenoldeb toredig, dylai'r drafodaeth hefyd ganolbwyntio ar sut y gellir cytuno ar y cais am absenoldeb, a

fyddech yn cytuno i drefniant wedi ei addasu, pa ddewisiadau sy'n agored i chi a beth fyddai'r canlyniad os na ddeuir i gytundeb.

## **7 DECHRAU ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR**

Gall Absenoldeb Rhiant a Rennir ddechrau fel a ganlyn:

- Gall mam gymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir ar ôl iddi gwblhau'r pythefnos gorfodol o absenoldeb mamolaeth yn syth ar ôl genedigaeth y plentyn.
- Gall mabwysiadwr gymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir ar ôl cymryd o leiaf pythefnos o absenoldeb mabwysiadu.
- Gall tad/partner/priod gymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir yn syth ar ôl genedigaeth/mabwysiadu'r plentyn, ond mae'n rhaid iddynt sylweddoli wrth wneud hynny eu bod yn dewis ymwrthod ag unrhyw hawl i gymryd absenoldeb tadolaeth statudol (gan na fyddant wedi ei gymryd yr adeg honno ac ni allant ei gymryd yn ddiweddarach).

Pan fo mam/prif fabwysiadwr wedi rhoi rhybudd i ddiweddu eu hawl mamolaeth/mabwysiadu, yna gall eu partner gymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir ar yr un adeg â hwy (hynny yw, tra eu bod yn dal i ddefnyddio eu hawliau mamolaeth/mabwysiadu).

Bydd Absenoldeb Rhiant a Rennir yn gyffredinol yn dechrau ar y dyddiad dechrau a ddewiswyd gennych, y dyddiad a nodwyd yn eich ffurflen gais, neu mewn unrhyw hysbysiad o amrywiad dilynol.

Rhaid i Absenoldeb Rhiant a Rennir ddod i ben fan bellaf flwyddyn ar ôl genedigaeth/mabwysiadu'r plentyn. Collir unrhyw Absenoldeb Rhiant a Rennir a fydd heb ei gymryd cyn pen-blwydd cyntaf yr enedigaeth neu'r mabwysiadu.

## **8 AMRYWIADAU I ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR**

Mae gennych hawl i hyd at 3 rhybudd o amrywiad, sef yr hysbysiad gwreiddiol a 2 amrywiad arall.

Bydd rhybuddion a gaiff eu tynnu'n ôl neu eu newid o ganlyniad i'r plentyn yn cael ei eni neu ei fabwysiadu'n gynt neu'n hwyrach na'r disgwyl, neu o ganlyniad i'r brifysgol yn gofyn am newid (a'r gweithiwr yn cytuno i'r newid), yn cael eu diystyru.

I amrywio cyfnod o Absenoldeb Rhiant a Rennir, rhaid rhoi o leiaf wyth wythnos o rybudd, (mewn grym o naill ai'r dyddiad dechrau/gorffen gwreiddiol, neu'r dyddiad newydd, pa un bynnag sy'n dod gyntaf), i:

- a) newid dyddiad cyfnod o Absenoldeb Rhiant a Rennir,
- b) canslo neu dynnu rhybudd yn ôl,
- c) newid y cais am absenoldeb o un cyfnod o absenoldeb i gyfnod toredig (neu i'r gwrthwyneb) neu,
- d) amrywio maint yr absenoldeb y gofynnwyd amdano.

Os na roddir rhybudd digonol nid oes rhaid i'r brifysgol dderbyn y rhybudd os na all yn rhesymol dderbyn y newidiadau y gofynnir amdanynt. Gall y brifysgol ofyn i chi ddechrau'r cyfnod nesaf o Absenoldeb Rhiant a Rennir ar y dyddiad dechrau disgwylidig, gan orffen fan bellaf ar y dyddiad yr oedd y cyfnod hwn o Absenoldeb Rhiant a Rennir i fod i ddod i ben neu 8 wythnos ar ôl i'r brifysgol gael gwybod am y newid mewn amgylchiadau, pa un bynnag yw'r cynharaf.

## **9 CADW MEWN CYSYLLTIAD YN YSTOD EICH CYFNOD ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR - Dyddiau cadw mewn cysylltiad yn ystod Absenoldeb Rhiant a Rennir**

Yn ystod eich absenoldeb rhiant a rennir dylech chi a'ch rheolwr llinell gadw mewn cysylltiad rhesymol â'ch gilydd. Dylid cytuno ar amllder y cyfathrebu a'r dull cyfathrebu cyn dechrau'r cyfnod absenoldeb. Os ydych yn dymuno derbyn gwybodaeth am rai materion neu ddatblygiadau tra byddwch ar absenoldeb rhiant a rennir, unwaith eto dylid trafod hyn a chytuno arno cyn i'ch cyfnod absenoldeb ddechrau.

Dyddiau Cadw mewn Cysylltiad yn ystod Absenoldeb Rhiant a Rennir - Drwy gytundeb â'ch rheolwr llinell, gellwch weithio hyd at uchafswm o 20 diwrnod yn ystod eich cyfnod absenoldeb rhiant a rennir. Gelwir y rhain yn ddyddiau 'cadw mewn cysylltiad yn ystod absenoldeb rhiant a rennir'. Gellwch weithio'r dyddiau hynny ar unrhyw adeg yn ystod eich absenoldeb rhiant a rennir. Dylid cytuno ar ddyddiau cadw mewn cysylltiad rhwng y ddwy ochr - nid oes rhaid i chi weithio dyddiau felly, ac nid oes rhaid i'r brifysgol gytuno iddynt chwaith.

Lle cymerir dyddiau cadw mewn cysylltiad telir cyfraddau cyflog dyddiol arferol ac ni ellwch gymryd diwrnod i ffwrdd yn eu lle. Yn ystod y cyfnod tâl llawn absenoldeb rhiant a rennir ni thelir taliad ychwanegol ac eithrio Tâl Absenoldeb Rhiant a Rennir Statudol a fydd yn dâl ychwanegol ar ben eich cyfradd ddyddiol arferol. Os byddwch yn cymryd un o'r dyddiau hynny yn ystod eich cyfnod o hanner cyflog, Tâl Absenoldeb Rhiant a Rennir Statudol neu Ddim Tâl, fe gynyddir eich taliad i'ch cyfradd ddyddiol arferol a lle

bo'n gymwys gyda Thâl Absenoldeb Rhiant a Rennir Statudol. Os byddwch yn bresennol am ran o ddiwrnod bydd hynny'n cyfrif fel un Diwrnod Cadw mewn Cysylltiad.

Os byddwch yn dymuno gwneud Diwrnod Cadw mewn Cysylltiad, rhaid i chi gytuno ar y dyddiau/dyddiadau a'r math o waith yn ysgrifenedig gyda'ch rheolwr llinell. Ceir ymgynghori priodol wedyn rhyngoch chi a'ch rheolwr llinell ac ymatebir yn briodol i'ch cais. Bydd eich rheolwr llinell wedyn yn cadarnhau'r manylion gydag Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod manylion yn cael eu prosesu'n brydlon.

Dylid cytuno rhyngoch chi a'ch rheolwr llinell ynghylch y math o waith sydd i'w wneud. Gall dyddiau Cadw mewn Cysylltiad gynnwys cyrsiau hyfforddi, cyfarfodydd staff, dyddiau cwrdd i ffwrdd, adolygiadau perfformiad a datblygiad etc. ac ni ddylid eu cyfyngu i'ch dyletswyddau arferol. Cyfrifoldeb eich rheolwr llinell yw monitro dyddiau Cadw mewn Cysylltiad a'u cofnodi gydag Adnoddau Dynol o fewn mis ar ôl i chi eu gwneud.

Lle bo'r ddau riant yn gweithio i'r brifysgol, mae gan y ddau eu hawl unigol eu hunain i 20 o ddyddiau Cadw mewn Cysylltiad Absenoldeb Rhiant a Rennir.

## **10 DYCHWELYD I'R GWAITH AR ÔL ABSENOLDEB RHIANT A RENNIR**

*Newid amser dychwelyd (angen rhoi rhybudd) –*

Os ydych yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith cyn diwedd eich cyfnod absenoldeb rhiant a rennir, rhaid i chi roi 8 wythnos o rybudd ysgrifenedig o'r dyddiad pryd yr ydych yn bwriadu dychwelyd i'ch rheolwr llinell (gyda chopi i Adnoddau Dynol). Os nad ydych yn rhoi'r rhybudd gofynnol, gall eich rheolwr llinell ohirio eich dychweliad hyd nes rhoddir yr 8 wythnos lawn o rybudd, cyn belled nad yw'n hwyrach na diwedd disgwylidig blaenorol absenoldeb rhiant a rennir ac nad yw'n hwyrach na diwedd y 50 wythnos o absenoldeb rhiant a rennir.

*Yr hawl i dychwelyd i'r un swydd /swydd debyg -*

Fel rheol byddwch yn dychwelyd i'r swydd yr oeddech yn gyflogedig ynddi cyn eich absenoldeb rhiant a rennir, ar yr amodau a'r telerau a fyddai mewn grym pe na buasech yn absennol. Pan fyddwch yn dychwelyd o'ch cyfnod absenoldeb, mae

gennych yr hawl i dychwelyd naill ai i'r un swydd, neu os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol (er enghraifft oherwydd ailstrwythuro), i swydd gyfatebol a fyddai'n cael ei hystyried yn waith amgen addas, ar delerau ac amodau heb fod yn llai ffafriol na'r rhai a fuasai mewn grym pe na byddech yn absennol.

*Yr hawl i ofyn am drefniant gweithio hyblyg -*

Ar ôl dychwelyd o'ch cyfnod absenoldeb rhiant a rennir, mae gennych hawl i ofyn am newid yn eich oriau/patrwm gweithio. Er nad oes gennych hawl awtomatig i gael eich cais wedi ei gymeradwyo, rhoddir ystyriaeth i bob cais am waith rhan amser neu drefniadau gweithio hyblyg eraill yn unol â gofynion ac anghenion gweithredol. Os hoffech i'r opsiwn hwn gael ei ystyried, dylech lenwi'r ffurflen Cais i Weithio'n hyblyg gan amlinellu eich cynigion cyn gynted ag y bo modd cyn eich dyddiad dychwelyd. Amlinellir y drefn i ddelio â cheisiadau felly ym Mholisi Gweithio Hyblyg y brifysgol.

## **11 AELODAU STAFF NAD YDYNT YN DYCHWELYD I'R GWAITH**

Os nad ydych yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith ar ôl eich absenoldeb rhiant a rennir, rhaid i chi gydymffurfio â'r rheidrwydd i roi rhybudd fel y nodir yn eich amodau a'ch telerau cyflogaeth.

Yn achos absenoldeb rhiant a rennir dan gynllun diwygiedig Absenoldeb Rhiant a Rennir y brifysgol, mae'r brifysgol yn cadw'r hawl i hawlio'n ôl y cyfan neu ran o'r elfen anstatudol o dâl absenoldeb rhiant a rennir os nad ydych yn dychwelyd i'r gwaith, o'ch dewis, am gyfnod o 3 mis o leiaf ar ôl diwedd eich cyfnod o absenoldeb rhiant a rennir. Hynny yw, y gwahaniaeth rhwng y tâl yr ydych wedi ei dderbyn a'r hyn y byddech wedi ei dderbyn pe baech wedi dewis y cynllun Absenoldeb Rhiant a Rennir Statudol.

## **12 HAWLIAU AC YMRWYMIADAU**

### **12.1 HAWLIAU PENSIWN**

Rheolir hawliau a chyfraniadau pensiwn yn unol â darpariaethau'r cynllun pensiwn perthnasol, ar yr amod nad yw'r darpariaethau hyn yn gwrthdaro ag unrhyw ofynion statudol a all fod mewn grym ar y pryd.

Fel rheol diogelir budd-daliadau pensiwn yn ystod y cyfnod absenoldeb â thâl. Mae gennych y dewis o gytuno i dalu'r cyfraniad dros y cyfnod absenoldeb heb dâl ar ôl i chi dychwelyd i'r gwaith, ac ar yr amod bod hyn yn digwydd, bydd y brifysgol hefyd yn talu cyfraniadau cyflogwr am y cyfnod absenoldeb heb dâl.

Gellir cael gwybodaeth bellach am ddarpariaeth benodol o dan wahanol gynlluniau pensiwn gan y Swyddog Pensiynau.

## 12.2 GWASANAETH DI-DOR

Lle rydych yn ymarfer eich hawl i ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod o absenoldeb mamolaeth, ystyrir y cyfnod absenoldeb yn wasanaeth di-dor gyda'r brifysgol at ddibenion hawliau diswyddo a hawliau tebyg eraill.

Hefyd bydd gennych yr hawl i symud ymlaen trwy'r cynyddrannau blynyddol arferol ar raddfa cyflog y brifysgol yn unol ag amodau a thelerau eich cyflogaeth

## 12.3 GWYLIAU BLYNYDDOL

Bydd eich gwyliau blynyddol yn cronni yn ystod eich cyfnod Absenoldeb Rhiant a Rennir. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wyliau banc neu ddiwrnodau Prifysgol a all ddisgyn yn ystod y cyfnod hwn.

Nid yw'n bosib cymryd gwyliau blynyddol tra byddwch ar Absenoldeb Rhiant a Rennir, ond, trwy gytundeb â'ch rheolwr llinell, gallwch eu cymryd cyn neu ar ddiwedd eich cyfnod Absenoldeb Rhiant a Rennir.

Ar ôl i chi ddychwelyd o'ch cyfnod Absenoldeb Rhiant a Rennir gallwch drosglwyddo unrhyw wyliau blynyddol a gronwyd/sydd heb eu cymryd i'r flwyddyn wyliau ganlynol. Rhaid cymryd gwyliau a drosglwyddir i'r flwyddyn wyliau nesaf o fewn y flwyddyn honno.

## 12.4 RHOI GWYBODAETH FFUG

Os canfyddir eich bod wedi rhoi gwybodaeth ffug neu ddatganiad ffug e.e. ynglŷn â'ch cymhwysedd chi neu eich partner, yr absenoldeb a gymerir gan eich partner etc., bydd hyn yn cael ei ystyried fel camymddwyn difrifol ac ymdrinnir â hyn yn unol â'r drefn ddisgyblu. Lle deuir o hyd i weithgarwch twyllodrus mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i hawlio'n ôl unrhyw daliadau a dderbyniwyd oddi wrth y brifysgol neu daliadau statudol a dderbyniwyd.

## 13 STAFF AR GONTRACTAU CYFNOD PENODOL

Dylech ymgynghori â'ch rheolwr llinell mor fuan â phosib os yw eich contract cyflogaeth i fod i ddod i ben yn ystod eich cyfnod absenoldeb rhiant a rennir neu cyn pen tri mis ar ôl i chi ddychwelyd i'r gwaith (os ydych o dan gynllun Absenoldeb Rhiant

a Rennir y brifysgol). Lle nad yw'n bosib estyn eich contract, ac os ydych yn gymwys, bydd eich tâl absenoldeb rhiant a rennir yn parhau am y 39 wythnos gyfan neu'r wythnosau sy'n weddill, ond bydd yr holl fuddion eraill a gysylltir â'ch cyflogaeth yn dod i ben ar ddiwedd dyddiad y contract.

#### **14 AELODAU STAFF A GYLLIDIR GAN INCWM ALLANOL**

Os yw eich contract wedi ei gyllido gan incwm allanol dylech drafod y mater gyda'ch rheolwr llinell ac/neu ddeiliad y grant mor fuan â phosib. Mae gan rai cyrff cyllido bolisi o estyn grantiau dros gyfnodau o absenoldeb, megis absenoldeb rhiant a rennir. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich hawl i absenoldeb rhiant a rennir gyda thâl..

#### **15 ADOLYGU POLISI**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau o dro i dro i wneud yn siŵr ei fod yn dal i fod yn addas at anghenion y sefydliad ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.